Brig y Goeden


Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 10

Brig y Goeden

# Bosgi Stryd y Coed

RITA RAY



# Bosgi Stryd y Coed


RITA RAY

Lluniau gan Susan Scott




DRAKE

# 1




Ci bychan du a brown oedd Snap. Fo oedd bosgi Stryd y Coed.

Un bore Sadwrn, roedd o'n cerdded i fyny ac i lawr Stryd y Coed fel arfer.




Snwffiodd riniog pob drws a phob polyn lamp. Ysgydwodd ei gynffon ar y plant fyddai'n cadw tamaid bach iddo. Gwthiodd ei ben i bram Cara. Chwarddodd Cara a chyffwrdd trwyn tamp Snap.





Yna gofalodd Snap fod cŵn a chathod y stryd i gyd yn eu llefydd. Roedd cŵn yn gorfod aros yn iard gefn eu tai a chathod yn gorfod eistedd ar waliau'r iardiau cefn. Hynny yw os oedden nhw'n meiddio dod allan o gwbl.

Ffit-ffatiodd Snap yn ôl at ei ddrws ei hun. Roedd popeth i'w weld yn iawn yn Stryd y Coed. Ond, doedd popeth ddim yn iawn.




Pam roedd perchenogion Snap, Ada a Harri, gartref? Roedden nhw'n arfer mynd i'r gwaith ar fore Sadwrn. Roedd bocsys ym mhobman. Roedd Harri yn tynnu gwely oddi wrth ei gilydd. Roedd Ada yn rhoi cwpanau mewn bocs.



"Helo, Snap," meddai hi pan ddaeth o i mewn. Snwffiodd Snap y bocsys. "Well iti gael dy fwyd cyn i'r fan ddod."

"Pa fan?" meddyliodd Snap. Cafodd wybod yn fuan. Daeth fan fawr i ffrynt y tŷ. Helpodd dau ddyn Harri ac Ada i roi eu pethau i gyd yn y fan.



"Fedra i ddim symud o'ma!" meddyliodd Snap. "Pwy fydd yn gofalu am Stryd y Coed? Pwy fydd yn chwarae efo'r plant ac yn cadw'r cŵn eraill oddi ar y stryd? Pwy fydd yn gofalu fod y cathod yn aros ar waliau'r iardiau cefn?"

"Tyrd, Snap," galwodd Harri. "Ffarwelia efo Stryd y Coed." Cododd Snap a'i roi yn nhu blaen y fan.





Daeth plant Stryd y Coed allan i ffarwelio â nhw fel roedd y fan yn mynd. Rhoddodd mam Cara ddarn o gacen i Snap.

Wrth edrych allan drwy ffenest y fan roedd Snap yn meddwl, "Os a i i ffwrdd, sut medra i wneud fy ngwaith? Fi ydi bosgi Stryd y Coed, ond fedra i ddim aros yma. Fedra i ddim gadael Ada a Harri. Mae cŵn yn aros efo'u perchenogion. Nid fel rhai cathod dwi'n eu nabod. Aiff y rheini i rywle lle mae tân cynnes."

# 2




Roedd yn rhaid i'r fan fynd yn araf yr holl ffordd i'r tŷ newydd. Roedd bws mawr oren o'i blaen. Gwyliodd Snap y bws a chael syniad. Erbyn iddo gyrraedd y tŷ newydd roedd ganddo gynllun.






Gallai'r cynllun ei helpu i gadw trefn ar Stryd y Coed er nad oedd yn byw yno bellach.

Teimlai Snap dipyn bach yn hapusach pan neidiodd allan o'r fan. Aeth i snwffian i bob twll a chornel o'i gartref newydd.

Dydd Sul oedd hi drannoeth ac roedd yn rhaid i Ada a Harri ddadbacio pethau. Yng nghefn y tŷ newydd roedd gardd yn lle iard.



“Mae’r cŵn yn aros yn eu gerddi eu hunain yma,” meddai Ada wrth Snap. “Dim cerdded o gwmpas fel bosgi. A i â thi am dro cyn bo hir.”

Aeth Snap o gwmpas i gael gweld beth oedd ym mhen draw’r ardd a chlywodd sŵn cyfarth. Roedd rhywbeth yn trio dod drwy’r ffens. Ci bychan efo ruban wedi ei glymu ar ei ben oedd yno.



Allai Snap ddim credu hyn. “Ych a fi!” meddyliodd. “Am lipryn bach! Nid ci *iawn* ydi hwnna! Châi ci fel yna ddim mynd yn agos at Stryd y Coed.”

Thrafferthodd o ddim i gyfarth ar y ci bychan hyd yn oed. Clywodd ei berchennog yn galw, “Ffwffw, Ffwffw, cariad! Tyrd at Mami!”

“Ych a fi!” meddyliodd Snap. “Dwi isio mynd yn ôl i Stryd y Coed.”



Bore dydd Llun aeth Ada a Harri i'r gwaith. "Rydw i wedi gadael allwedd drws nesa," meddai Ada wrth Snap. "Daw perchennog Ffwffw yma a gadael iti fynd allan i'r ardd, ac fe ddown ni adref am bump o'r gloch."

"Paid â siarad efo'r ci yna fel petai o'n deall!" meddai Harri.

"Be wyt ti'n feddwl? *Mae* o'n deall siwr iawn, on'd wyt, Snap?" meddai Ada.





Yn ddiweddarach, daeth perchennog Ffwffw i agor y drws allan i'r ardd.

"Iawn," meddyliodd Snap.

Rhedodd i'r ardd a dechrau tyllu.

"Ci drwg," galwodd perchennog Ffwffw. "Paid ti â dysgu castiau drwg i fy Ffwffw bach i."




Ceisiodd Snap gael sgwrs efo'r ci ar yr ochr arall. Ci tarw mawr efo llygaid llipa oedd o.

"Mae gwell golwg ar hwn," meddyliodd Snap gan gyfarth yn gyfeillgar. Ond ddywedodd y ci mawr ddim byd o gwbl.


"Fedra i ddim dioddef hyn fawr rhagor," meddyliodd Snap. "Mae'n rhaid imi drio mynd yn ôl i Stryd y Coed."





Y noson honno syrthiodd i gysgu yn meddwl am ei gynllun i gadw llygad ar Stryd y Coed.

Cyn gynted ag roedd Ada a Harri wedi gyrru ymaith yn eu car drannoeth, cychwynnodd Snap weithio ar ei gynllun. Roedd agor drysau yn hawdd i gi clyfar fel Snap.



Cychwynnodd i lawr y llwybr ac allan drwy'r giât ffrynt. Arhosodd wrth y safle bysiau a sefyll wrth ymyl dyn a dynes.

Pan ddaeth y bws mawr oren neidiodd i mewn y tu cefn iddyn nhw fel na fyddai'r gyrrwr yn sylwi arno. Eisteddodd yn y cefn yn edrych allan drwy'r ffenest.






Cyrhaeddon nhw Stryd y Coed yn fuan a neidiodd Snap i lawr y tu cefn i ddyn gyda bag neges. Cafodd y gyrrwr gip ar ei gynffon yn unig.

"Ci pwy ydi hwnna?" gwaeddodd. "Oes yna rywun wedi talu drosto?" Roedd hi'n rhy hwyr!

# 3



Roedd Snap eisoes yn rhedeg ar hyd Stryd y Coed. Snwffiodd riniog pob drws a phob polyn lamp. Gyrrodd gath yn ôl i ben wal iard gefn.


Gwthiodd ei ben i bram Cara. Chwarddodd Cara yn uchel ac edrychodd ei mam i weld beth oedd yn digwydd.






"Snap!" gwaeddodd yn syn. "Be rwyt ti'n wneud yma?" Ysgydwodd Snap ei gynffon ac edrychodd yn llwglyd.

"Tyrd i mewn," meddai mam Cara. "Mae yna gig ar ôl ddoe. Cei di fwyta hwnnw."




Pan ddaeth y plant adref o'r ysgol gwaeddodd pawb, "Snap! Snap! Roedden ni'n meddwl dy fod ti wedi mynd am byth." Rhoddodd pawb fwythau iddo. Chwaraeodd efo nhw nes y galwyd nhw i mewn i gael te.





"Mae'n bump o'r gloch," meddai mam Cara. "Well i mi fynd â Snap yn ôl i'w gartref newydd." Aeth at y drws a galw, "Snap! Snap!" ond doedd Snap ddim yno. Edrychodd y plant i fyny ac i lawr Stryd y Coed. Ond doedd dim golwg ohono. Yn y diwedd, cychwynnodd mam Cara am dŷ newydd Snap.




Roedd Ada a Harri yn falch o weld mam Cara. “Helo, Beryl. Dyna glên wyt ti, yn dod i’n gweld ni,” medden nhw.

“Wedi dod ynghylch Snap ydw i. O! Mae yma!”

“Wel ydi siwr iawn,” meddai Ada. “Yma mae o’n byw. Roedd o’n cysgu’n drwm yn y gegin pan ddaethon ni adref. Dwi’n meddwl ei fod o’n hoffi ei gartref newydd.”






“Felly pam roedd o yn Stryd y Coed drwy’r dydd?” meddai mam Cara.

“Stryd y Coed? Sut gallai o fod? Rhaid mai ci arall tebyg iddo fo oedd yno,” meddai Harri.

“O na, Snap oedd o, yn bendant. Gofynnwch i’r plant.”



“Dowch i’r ystafell arall am funud,” sibrydodd Ada. “Mae Snap yn deall pob gair, wyddoch chi.”

“Twt lol!” meddai Harri ond fe aeth o i’r ystafell arall i glywed cynllun Ada.

“Mae gen i ddiwrnod rhydd fory,” meddai Ada. “Smalia i fynd i’r gwaith fel arfer ond cuddia i a gweld be mae o’n wneud.”





Drannoeth gwyliodd Ada Snap yn mynd ar y bws mawr oren. Roedd hi eisiau chwerthin. “Dyna gi clyfar!” meddyliodd. “*Mae* o’n deall.”

Aeth i Stryd y Coed a gwyliodd Snap o ystafell ffrynt mam Cara.




Am hanner awr wedi pedwar, i ffwrdd â Snap at y safle bysiau a dal y bws i fynd adref. “Ti sydd yma eto, ie?” meddai gyrrwr y bws a gadael iddo ddod i mewn heb dalu.

Pan gyrhaeddodd Ada a Harri gartref roedd Snap yn cysgu’n drwm. “Dim rhyfedd dy fod ti wedi blino,” meddai Ada. “Mae’n waith caled cadw trefn ar Stryd y Coed drwy’r dydd.”





Cododd Snap ei glustiau ac agor un llygad. “Rydan ni’n gwybod be wyt ti’n wneud, Snap.”

Ar hynny daeth cnoc ar y drws ffrynt.


“Gohebydd papur newydd sydd yna,” meddai Harri, “o’r Herald. Mae o eisiau tynnu llun Snap. Clywodd o gan yrrwr y bws am gi clyfar sy’n mynd ar y bws ar ei ben ei hun. Ci drwg yn nes ati, dwi’n meddwl.”




Neidiodd Snap ar ei draed gan ysgwyd ei gynffon. Roedd o wrth ei fodd yn cael tynnu'i lun. Drannoeth gwelodd pawb yn Stryd y Coed ei hanes ar y dudalen flaen. *Snap ar y Bws!* oedd y pennawd.

Daeth llawer o bobl i fynd ar y bws efo Snap, felly cafodd y gyrrwr ddigon o arian. A Snap ydi bosgi Stryd y Coed o hyd, er nad ydi o'n byw yno bellach.





# *Am yr awdur*

Rita Ray ydi f'enw i. Rydw i'n meddwl ei fod yn enw da i rywun sy'n ysgrifennu gan ei fod yn hawdd i bobl ei gofio.

Roedd Snap y ci yn byw yn ein stryd ni pan oeddwn i'n blentyn. Fo oedd bosgi ein stryd ni ac mae'n berffaith wir iddo ddod yn ôl ar y bws i gadw trefn ar bopeth wedi iddo symud. Roedd Ada, perchennog Snap, yn gweithio mewn ffatri fferins ac weithiau byddai'n rhoi fferins i ni oherwydd ein bod ni'n rhoi tameidiau i'w Snap hi.



**Llyfrau Brig y Goeden eraill ar y lefel hon:**

*Y Sgwinc* gan Rita Ray
*Shorts Jyngl* gan Irene Rawnsley
*Teigr Amryliw Mr Stofflys* gan Robin Mellor
*Y Merched Mewn Mwgwd* gan John Coldwell
*Tric y Merched Mewn Mwgwd* gan John Coldwell

# Bosgi Stryd y Coed

Snap ydi'r bosgi sy'n cadw trefn ar Stryd y Coed. Mae pawb yn gwybod hynny.

Yna mae Ada a Harri, ei berchenogion, yn mynd i fyw i rywle arall. Beth wnaiff Snap? Mae Stryd y Coed angen Snap.



Brig y Goeden

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 10

ISBN 0-86174-431-4

9 780861 744312

ISBN 0 86174 431 4

DRAKE